# Cod Ymddygiad ar gyfer Hysbysiadau Cosb

# Presenoldeb Afreolaidd mewn Ysgol/ Darpariaeth Addysgol Amgen

## Sail Gyfreithiol a Rhesymwaith

Mae Canllawiau ar gyfer Hysbysiadau Cosb am Golli'r Ysgol yn Rheolaidd (dogfen Canllawiau rhif 116/2013) [yr Arweiniad] yn gwneud amod bod hysbysiadau cosb yn un dewis sydd ar gael i hyrwyddo presenoldeb gwell mewn ysgolion. Mae'r Canllawiau yn gwneud amod hefyd "bod yn rhaid rhoi sylw i'r canllawiau hyn ac mae disgwyl iddynt gael eu dilyn oni bai bod rheswm da dros wyro oddi wrthynt".

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon gan ddisgyblion mewn ysgol/darpariaeth addysgol amgen yn ofyniad cyfreithiol a hanfodol i ddisgyblion wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn gyfreithiol, mae trosedd yn digwydd os bydd rhiant, fel y diffinnir yn adran 576 Deddf Addysg 1996, yn methu sicrhau presenoldeb rheolaidd ei blentyn yn yr ysgol/mewn darpariaeth addysgol amgen ac nad yw absenoldeb wedi cael ei awdurdodi gan yr ysgol.

Mae adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996 yn gwneud amod y gellir delio ag absenoldeb anawdurdodedig trwy hysbysiad cosb. Gellir cyflwyno hysbysiad cosb o hyd at £120 i riant o ganlyniad i blentyn yn colli'r ysgol / y ddarpariaeth addysgol amgen yn rheolaidd.

Cyngor Sir Penfro [CSP] sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu'r protocol y bydd ysgolion, yr heddlu a'r awdurdod lleol yn Sir Benfro yn gweithredu oddi mewn iddo, a bydd Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Gall penaethiaid, gan gynnwys eu dirprwy awdurdodedig a'u penaethiaid cynorthwyol, a'r heddlu, ofyn am hysbysiad cosb mewn perthynas â rhiant plentyn/plant sy'n absennol o ysgol / darpariaeth addysgol amgen heb awdurdod. Gall pennaeth, neu'i ddirprwy awdurdodedig a phennaeth cynorthwyol ddim ond gofyn am hysbysiad cosb ynghylch plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn ei ysgol. Wrth gyflwyno hysbysiadau cosb, rhaid cydymffurfio â holl ofynion y Ddeddf Hawliau Dynol a'r holl ddeddfwriaeth cyfle cyfartal.

Bydd CSP yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd o ysgol / darpariaeth addysgol amgen ac yn dilyn gwaith achos, bydd yn symbylu hysbysiadau cosb os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae hysbysiadau cosb yn cynnig ymyrraeth gyflym y gallai CSP ei defnyddio i ddelio â materion yn ymwneud â disgyblion yn colli'r ysgol yn rheolaidd cyn iddynt fod yn rhai sefydledig sy'n anodd eu newid. Bydd cyflwyno hysbysiadau cosb yn seiliedig ar feini prawf trothwy clir a fydd yn cael eu cymhwyso'n gyson a theg ar draws CSP. Rhaid i unrhyw bobl sydd wedi eu hawdurdodi i gyflwyno hysbysiad cosb (ac yn gofyn am ei gyflwyno) wneud hynny yn unol â'r cod ymddygiad hwn.

Diben y Cod Ymddygiad yw sicrhau bod y pwerau'n cael eu cymhwyso'n gyson ac yn deg ledled Sir Benfro a bod trefniadau addas ar waith ar gyfer gweinyddu'r cynllun.

## Materion cynhwysiant a chydraddoldeb

Mae CSP wedi ymrwymo i wella cyflawniad eu holl ddisgyblion yn barhaus. Mae disgwyliad bod pob un o'i ddisgyblion, beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu'u hanghenion unigol, yn gallu sicrhau eu hawl i addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae presenoldeb rheolaidd felly yn hanfodol os yw pob disgybl am lwyddo ac elwa ar y cyfleoedd a roddir iddynt. Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd yn hanfodol er mwyn galluogi plant i gyflawni eu llawn botensial yn ystod y tymor yn yr ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd hefyd yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac mae'n lleihau'r cyfleoedd iddynt golli'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

Caiff rhieni a disgyblion eu cynorthwyo ar lefel ysgol / darpariaeth addysgol amgen a CSP i oresgyn rhwystrau rhag presenoldeb rheolaidd a thrwy ystod eang o strategaethau asesu ac ymyrraeth. Dylid dim ond defnyddio cosbau o unrhyw natur pan fydd rhieni naill ai ddim yn cydweithredu yn y broses hon, neu mae eu cydweithrediad yn annigonol, i ddatrys y broblem bresennol. Mae'r gosb ychwanegol hon yn ffordd o orfodi presenoldeb lle mae disgwyliad rhesymol y bydd yn sicrhau gwelliant.

## Polisi a Chyhoeddusrwydd

Er mwyn sicrhau bod rhieni yn gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth hysbysiad cosb, disgwylir y dylai pob ysgol, gyda chefnogaeth eu corff llywodraethol, amlinellu gwybodaeth am hysbysiad cosb yn glir yn eu polisi presenoldeb a rhoi gwybodaeth i rieni yn ysgrifenedig ar ddechrau pob blwyddyn academaidd (Atodiad 1).

## Ymarferoldeb cyfreithiol

- Mae hysbysiad cosb yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad;
- Mae hyn yn codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad;
- Os na chaiff yr hysbysiad cosb ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, rhaid i'r awdurdod lleol naill ai erlyn am y drosedd neu dynnu'r hysbysiad yn ôl.

Bydd yr achosion erlyn am drosedd i fethu sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac am beidio â thalu'r hysbysiad cosb. Bydd yr erlyniad yn dod o dan adran 444 Deddf Addysg 1996.

Gellir ond tynnu'r hysbysiad yn ôl mewn amgylchiadau cyfyngedig fel yr amlinellir yn y cod ymddygiad hwn.

## Cyflwyno hysbysiad cosb

Er mwyn osgoi cyflwyno hysbysiadau cosb dyblyg, Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP fydd yn parhau i fod yn gyfan gwbl gyfrifol am y trefniadau rheoli a phrosesu yn Sir Benfro. Dim ond swyddogion awdurdodedig all gyflwyno hysbysiad cosb o fewn Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP. Bydd gan y swyddogion awdurdodedig hynny ddisgresiwn i benderfynu p'un a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb i un neu fwy o rieni'r plentyn. Yr amgylchiadau penodol ym mhob achos unigol fydd y ffactor sy'n pennu hyn.

## Amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Gellir dim ond cyflwyno hysbysiad cosb mewn achosion o absenoldeb anawdurdodedig.

Mae'r meini prawf allweddol fel a ganlyn:

**Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn (pum diwrnod ysgol) o ganlyniad i absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y tymor presennol sy'n golygu bod cyfradd presenoldeb cyffredinol y disgybl islaw 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn (nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol).**

*mae absenoldebau anawdurdodedig yn cynnwys:-

-achosion anawdurdodedig o ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol;

-gwyliau anawdurdodedig yn ystod y tymor; ac

-achosion anawdurdodedig o gyrraedd yn hwyr ar ôl i'r gofrestr gau.

Bydd swyddogion awdurdodedig yng Nghyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP yn cydlynu a gweithio trwy ymgynghori ag ysgolion, heddweision lleol ac awdurdodau lleol cyfagos pan fo'n briodol, i sicrhau:

- bod yn rhaid i'r plentyn gael ei gofrestru fel disgybl yn yr ysgol lle mae'r pennaeth a/neu'i ddirprwy awdurdodedig neu bennaeth cynorthwyol yn gwneud y cais am yr hysbysiad cosb;
- y dylid ond cyflwyno hysbysiad cosb am droseddau lle mae CSP yn gallu erlyn, ac yn fodlon gwneud hynny (os nad yw'r hysbysiad cosb wedi cael ei dalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad). Dylai CSP fod yn fodlon fod digon o dystiolaeth i ddangos bod y rhiant wedi cyflawni trosedd o dan adran 444 Deddf Addysg 1996;
- y bydd defnyddio hysbysiadau cosb yn cael ei gyfyngu i'r uchafswm o dri hysbysiad fesul rhiant disgybl o fewn blwyddyn ysgol academaidd;

- y gellir cyflwyno hysbysiadau cosb am fwy nag un plentyn mewn achosion lle mae mwy nag un disgybl sydd â phresenoldeb gwael mewn teulu;
- na fydd cyfyngiad ar nifer yr adegau y gallai rhiant dderbyn rhybudd ffurfiol ynghylch hysbysiad cosb posibl;
- os bydd y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad rhybudd yn symud i ardal ALl arall yng Nghymru, yna bod yr hysbysiad cosb yn symud gydag ef;
- na ellir cyflwyno hysbysiadau cosb os bydd achosion cyfreithiol yn erbyn y rhiant o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 wedi dechrau neu'n cael eu hystyried adeg y cais.

Dylid nodi y bydd hysbysiadau cosb dim ond yn cael eu cyflwyno trwy'r post a byth fel gweithred sydyn, e.e. yn ystod cyrch triwantiaid. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr holl ofynion tystiolaethol ar waith a bydd yn cyfyngu ar y risgiau iechyd a diogelwch i unigolion.

## Cais ysgol am gyflwyno hysbysiad cosb

Pan fydd ysgol wedi nodi bod cyfnod o absenoldeb anawdurdodedig wedi digwydd, gellir cyflwyno cais i Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP am hysbysiad cosb. Gall pob pennaeth awdurdodi ei ddirprwy enwebedig neu bennaeth cynorthwyol i ofyn am hysbysiadau cosb bob blwyddyn (Atodiad 2).

Dylai gwaith papur yr ysgol gynnwys:

- cadarnhad bod gwybodaeth wedi cael ei hanfon at yr holl rieni ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n datgan yn glir y gallai rhieni dderbyn hysbysiad cosb;
- copi o ddogfen gofrestru'r disgybl;
- ffurflen gais gyflawn hysbysiad cosb (Atodiad 3).

Ni fydd hysbysiad cosb yn cael ei gyflwyno ynglŷn â Phlant sy'n Derbyn Gofal sy'n destun ymyrraeth barhaus gan ALl.

## Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Bydd CSP yn ymateb i bob cais i gyflwyno hysbysiadau cosb o fewn deg diwrnod ysgol o dderbyn gwybodaeth berthnasol, a phan fydd yn fodlon fod yr holl wybodaeth berthnasol wedi cael ei darparu (Atodiad 4). Gall ceisiadau gael eu llunio gan bennaeth, ei ddirprwy awdurdodedig neu bennaeth cynorthwyol, yr heddlu ac awdurdodau lleol cyfagos.

Mae'r weithdrefn fel a ganlyn:

- Mae CSP yn derbyn cais am hysbysiad cosb (Atodiad 3) a bydd y rhestr wirio berthnasol yn cael ei chwblhau gan CSP (Atodiad 4);
- Os caiff y cais ei dderbyn gan CSP, bydd CSP yn anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol at y rhiant yn ei hysbysu y gallai dderbyn hysbysiad cosb. (Atodiad 5).
- Mae CSP yn gosod cyfnod o 15 diwrnod ysgol i alluogi'r rhiant i ymateb. Yn ystod y pymtheg diwrnod, byddai gan rieni'r hawl i ddarparu unrhyw dystiolaeth y gallai fod yn dymuno ei chyflwyno i'r ysgol, gan gynnwys tystiolaeth feddygol, i ddadlau na ddylid cyflwyno'r hysbysiad cosb.
- Y pennaeth/unigolyn awdurdodedig yn yr ysgol fydd yn pennu p'un a yw'r dystiolaeth yn cael ei derbyn a'r gofrestr yn cael ei diwygio.

  Os na ddarperir tystiolaeth, neu fod y pennaeth/unigolyn awdurdodedig ddim yn derbyn y dystiolaeth, yna dylai'r pennaeth hysbysu CSP, a gall CSP gyflwyno hysbysiad cosb trwy bost dosbarth cyntaf (Atodiad 6);

  os na wneir taliad o £60 o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd;
- Os na chaiff y taliad o £60 ei wneud o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, mae'r hysbysiad yn codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad;
- Os caiff taliad o £120 ei wneud o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd;
- Os na chaiff taliad ei wneud yn unol â'r hysbysiad, yna bydd yr hysbysiad naill ai'n cael ei dynnu'n ôl neu bydd yr unigolyn yn cael ei erlyn am y drosedd o dan Ddeddf Addysg 1996 adran 444.

## Talu hysbysiad cosb

- Bydd manylion am y trefniadau ar gyfer talu yn cael eu cynnwys ar yr hysbysiad cosb.
- Wedi i'r taliad gael ei wneud yn unol â'r hysbysiad, caiff atebolrwydd y rhiant am y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad ei ryddhau ac ni ellir ei erlyn o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 am yr un cyfnod sy'n cael ei gwmpasu gan yr hysbysiad.
- Bydd CSP yn defnyddio'r symiau a dderbynnir o hysbysiadau cosb ar gyfer swyddogaethau cyflwyno a gorfodi hysbysiadau cosb ac yn erlyn derbynwyr nad ydynt yn talu. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw symiau a dderbynnir o hysbysiadau cosb na ddefnyddir ar gyfer y swyddogaethau hynny gael eu talu i Weinidogion Cymru.
- Nid oes cyfleuster ar gyfer talu mewn rhandaliad

## Peidio â thalu hysbysiad cosb

Gallai peidio â thalu hysbysiad cosb arwain at erlyniad o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996.

## Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

Nid oes hawl statudol i apelio yn erbyn cyflwyno hysbysiad cosb.

Wedi i hysbysiad cosb gael ei gyflwyno, gellir ond ei dynnu'n ôl os yw CSP yn fodlon:

- fod yr hysbysiad cosb wedi cael ei gyflwyno i'r unigolyn anghywir;
- na ddylai'r hysbysiad cosb fod wedi cael ei gyflwyno, h.y. ble mae wedi cael ei gyflwyno y tu allan i delerau'r Cod Ymddygiad hwn neu ni chyflawnwyd unrhyw drosedd;

  neu
- mae'r hysbysiad cosb yn cynnwys camgymeriadau pwysig.

Pan fydd hysbysiad cosb wedi cael ei dynnu'n ôl yn unol â'r uchod, bydd hysbysiad am dynnu'r hysbysiad cosb yn ôl yn cael ei roi i'r sawl sydd wedi derbyn yr hysbysiad a bydd unrhyw swm a dalwyd yn cael ei dalu'n ôl i'r unigolyn a'i talodd.

Ac eithrio'r hyn a ddarperir yn y paragraff isod, ni ellir parhau na chychwyn achosion yn erbyn y derbynnydd am y drosedd mewn cysylltiad â'r hyn y cyflwynwyd yr hysbysiad a dynnwyd yn ôl, neu ble roedd yr hysbysiad cosb yn gysylltiedig â throsedd o dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996, am drosedd o dan adran 444(1A) Deddf Addysg 1996 sy'n deillio o'r un amgylchiadau.

Pan gafodd hysbysiad cosb ei gyflwyno a'i dynnu'n ôl gan fod yr hysbysiad cosb yn cynnwys camgymeriadau pwysig, gellir parhau ag achosion, neu gychwyn achosion am y drosedd mewn cysylltiad â'r hyn y cyflwynwyd yr hysbysiad, neu ble roedd yr hysbysiad cosb yn gysylltiedig â throsedd o dan adran 444(1A) Deddf Addysg 1996 sy'n deillio o'r un amgylchiadau â'r drosedd a grybwyllwyd yn wreiddiol, os bodlonir y naill a'r llall o'r canlynol:-
-cyflwynwyd hysbysiad cosb arall ynglŷn â'r drosedd ar yr un pryd ag y cafodd yr hysbysiad cosb cyntaf ei dynnu'n ôl; ac
-ni thalwyd y gosb yn unol â'r hysbysiad cosb pellach hwnnw yn unol â gofynion Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 [y Rheoliadau].

Rhaid i CSP dynnu'r hysbysiad cosb yn ôl:-

a) pan na chaiff y gosb ei thalu'n llawn cyn i'r cyfnod i'w thalu ddod i ben; ac
b) nid yw CSP (yn unol â rheoliad 3(f) y Rheoliadau) naill ai wedi dechrau achosion yn erbyn y derbynnydd am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi, neu nid yw'n ystyried achosion o'r fath.

## Adolygu ac adrodd blynyddol

Bydd Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion CSP yn monitro'r defnydd o hysbysiadau cosb fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Bydd data ar gael i Lywodraeth Cymru ar gais.

Bydd y Cod Ymddygiad hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn a gellir ei ddiwygio yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad.

## Sut i gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am weithredu'r Cod Ymddygiad hwn a Hysbysiadau Cosb yn CSP, cysylltwch â'r canlynol:-

Y Swyddog Ymyrraeth Gynnar
Yr Adran Addysg, Plant ac Ysgolion
Cyngor Sir Penfro
Freemans Way
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

01437 764551

## Atodiadau

Atodiad 1: Llythyr ysgol
Atodiad 2: Ffurflen awdurdodi'r pennaeth
Atodiad 3: Ffurflen gais hysbysiad cosb
Atodiad 4: Rhestr wirio ALl
Atodiad 5: Hysbysiad rhybudd
Atodiad 6: Llythyr hysbysiad cosb